
IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 2.08.17

Yn bresennol: **Cynghorwyr :** Peter Read (Cadeirydd), John Brynmor Hughes a Gareth Williams

Swyddogion: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Cheryl Morgan (Arsylwi) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - LA CABANA, 2, MITRE TERRACE, PWLLHELI

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

Ar ran yr eiddo: Mr Ayoub Dohech (ymgeisydd) a Ms Nia Jones

Eraill a wahoddwyd: Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru), Heather Jones (Gwasanaeth Tan) a Kevin Jones (perchennog busnes cyfagos)

a) Adroddiad ac argymhelliad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer La Cabana, 2 Mitre Terrace, Pwllheli mewn perthynas â darparu bwyd poeth ac oer ar ac oddi ar y safle.

Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod un llythyr wedi ei dderbyn yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn. Tynnwyd sylw at y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r ymgeisydd a bod cytundeb wedi ei wneud i ostwng yr oriau gwerthu lluniaeth hwyr y nos ac oriau agor i 2:00 ar nos Wener a Sadwrn. Nodwyd hefyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno ar amodau penodol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng (TCC).

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.

- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
 - Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
 - Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
 - Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
 - Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai
- c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategwyd y sylwadau canlynol:
- Bod trafodaethau helaeth wedi eu cynnal gyda'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tan i drafod a rhagweld datrysiadau i bryderon
 - Gweld yr eiddo yn gyfle i wneud buses
 - Clwb Nos gyfagos yn agored tan 2:30 - dim eisiau mynd tu hwnt i'r amser yma yn gweini bwyd felly cytuno ar gau'r eiddo am 2:00 er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cronni mewn un lle
 - Yn byw ar y Stryd Fawr ac felly dim eisiau gweld difrod i adeiladau cyfagos
 - Bod bwriad i lanhau unrhyw lanast
- ch) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut roeddynt yn mynd i sicrhau cau ar amser, nodwyd bod gan yr ymgeisydd drwydded SIA (Awdurdod y Diwydiant Diogelwch). Ategwyd y byddai posib cyflogi aelod arall ar y drws pe bai angen - mater o asesu'r sefyllfa fel y byddai'r busnes yn datblygu.
- d) Cadarnhaodd Swyddog o'r Heddlu bod Heddlu Gogledd Cymru wedi trafod y cais gyda'r ymgeisydd cyn i'r cais gael ei gyflwyno a bellach bod cytundeb wedi ei wneud i gau am 2:00 dydd Gwener a dydd Sadwrn, sydd yn cysoni oriau agor gydag eiddo cyffelyb. Amlygwyd hefyd bod yr ymgeisydd;
- yn barod i dderbyn sylwadau ac i amodau TCC gael eu cynnwys ar y drwydded.
 - yng nghyd-destun goruchwylwyr drysau, oherwydd maint yr eiddo, bod un yn ddigonol.
 - bod cytundebau sbwriel wedi eu cytuno
 - bod yr ymgeisydd yn gwrthod gadael i sŵn ac anrhefn gael effaith ar drigolion a busnesau cyfagos.
 - Bod cydweithio da wedi bod gyda'r ymgeisydd a'r heddlu ac felly, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais.
- dd) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar ei wrthwynebiad i ganiatáu trwydded gan ategu at y sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr.
- Bod problemau hanesyddol wedi bod gyda'r eiddo.
 - Rhagweld y byddai problemau o ddifrod a chreu llanast yn y stryd yn mynd i ail ddechrau
 - Nad oedd eisiau adnewyddu a thalu am wydr ffenestr yn rheolaidd – pryderu am yr effaith ar ei fusnes
 - Byddai pobl yn cronni tu allan i'r bwyty gan greu sŵn ac anrhefn
- e) Wrth grynhoi ei gais, amlygodd yr ymgeisydd nad ei fwriad oedd creu problemau, llanast a difrod.
- f) Wrth ystyried y cais ystyriwyd adroddiad y Swyddog Trwyddedu, y ffurflen gais, y sylwadau ysgrifenedig a ddaeth i law oddi wrth y partïon gyda diddordeb ynghyd â'r sylwadau llafar a gyflwynwyd gan yr holl bartïon yn bresennol yn y gwrandawriad. Bu i'r Is-bwyllgor hefyd ystyried Polisi Trwyddedu'r Cyngor, arweiniad y Swyddfa Gartref ynghyd ag egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003
- Trosedd ac Anrhefn
 - Diogelwch y Cyhoedd

- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn ddarostyngedig i amodau arfaethedig a gytunwyd rhwng yr Heddlu a'r ymgeisydd o ran TCC ac oriau agor

Rhoddir trwydded fel a ganlyn:

1. Caniateir darparu lluniaeth hwyr yn nos i'w fwyta ar ac oddi ar yr eiddo, o ddydd Llun i ddydd lau rhwng 23:00 a 01:00, o ddydd Gwener i ddydd Sadwrn rhwng 23:00 a 02:00, ac ar ddydd Sul rhwng 23:00 ac 01:00.
2. Caniateir darparu lluniaeth hwyr yn nos i'w fwyta ar ac oddi ar yr eiddo, rhwng 23:00 a 02:00 ar nosweithiau Sul cyn dyddiau Llun gŵyl banc.
3. Bod oriau agor i'r cyhoedd o ddydd Llun i ddydd lau rhwng 11:00 a 01:00, o ddydd Gwener i ddydd Sadwrn rhwng 11:00 a 02:00, ac ar ddydd Sul rhwng 11:00 a 01:00.
4. Bod oriau agor i'r cyhoedd ar ddydd Sul cyn dydd Llun gŵyl banc rhwng 11:00 a 02:00.
5. Bod materion sydd wedi eu cynnwys yn rhan M o'r cais (h.y. yr atodlen weithredu) yn cael eu hymgorffori fel amodau i'r drwydded.
6. Ychwanegir fel amodau i'r drwydded, yr amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu o ran teledu cylch cyfyng.

Wrth ystyried pryderon perchennog busnes cyfagos, y byddai rhoi'r drwydded yn golygu cynnydd mewn pobl yn ymgynnull yn y dalgylch yn hwyr yn y nos, fyddai yn arwain at gynnydd mewn sbwriel a risg o ddifrod troseddol i'w fusnes ei hun, derbyniodd yr Is-bwyllgor bod sbwriel mewn egwyddor yn gallu bod yn berthnasol i'r amcan o atal niwsans cyhoeddus. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn derbyn bod difrod troseddol yn gallu bod yn berthnasol i'r amcan o atal trosedd ac anrhefn.

Fodd bynnag ni chafwyd tystiolaeth y byddai rhoi'r drwydded yn arwain at broblemau sbwriel na difrod troseddol. Damcaniaethol yn unig oedd y pryderon a nodwyd. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn nodi er bod nifer o fusnesau eraill yn y cylch nid oeddynt wedi cyflwyno sylwadau yn gwrthwynebu'r cais. Nodwyd hefyd nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais. Petai rhoi'r drwydded yn debygol o arwain at broblem sbwriel neu ddifrod troseddol byddai'r Is-bwyllgor wedi disgwyl gwrthwynebiadau oddi wrth yr Heddlu ac eraill.

Nodwyd hefyd bod sefydliadau eraill trwyddedig yn yr ardal yn agor yn hwyr, ac ni ddaeth tystiolaeth i law bod bodolaeth y trwyddedau hyn wedi arwain at broblemau trosedd ac anhrefn na niwsans cyhoeddus yng nghanol Pwllheli.

Yn yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais, yn ddarostyngedig i amodau arfaethedig a gytunwyd rhwng yr Heddlu a'r ymgeisydd o ran TCC ac oriau agor, yn gwbl gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr hwnnw

5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - ZIP WORLD ADVENTURE TERMINAL CHWAREL Y PENRHYN, BETHESDA

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

Ar ran yr eiddo: Mr Andrew Taylor (ar ran yr ymgeisydd)

Eraill a wahoddwyd: Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru), Heather Jones (Gwasanaeth Tan), Cyngorydd Dafydd Owen (Aelod Lleol)

a) **Adroddiad ac argymhelliad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Zip World Adventure Terminal, Chwarel y Penrhyn, Bethesda mewn perthynas â gwerthu alcohol, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio dan do; a darparu bwyd fel lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta ar yr eiddo.

Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod un llythyr wedi ei dderbyn yn gwrthwynebu'r cais gan y Gwasanaeth Tân gan nad oedd manylion y cais yn cyfarch yr amcan trwyddedu o ddiogelu'r cyhoedd. Tynnwyd sylw hefyd at sylwadau Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas ag amodau penodol ar gyfer defnydd TCC; a sylwadau gan Gwarchod y Choedd ar faterion sŵn. Nodwyd nad oedd bwriad cynnal digwyddiadau mawr ar yr eiddo a bod yr ymgeisydd yn cydnabod bod sŵn yn gallu cario ymhell o ystyried natur tirwedd chwarel lechi. Amlygwyd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw drysau a ffenestri wedi cau yn ystod cyfnodau cynnal adloniant.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategwyd y sylwadau canlynol:

- Bod yr adeilad newydd (tri llawr) yn cyfarch yr angen am swyddfeydd, canolfan ymwelwyr, siop, toiledau a thŷ bwyta
- Bod yr estyniad ei angen er mwyn ymateb i'r nifer o ymwelwyr

ch) Ymhelaethodd Swyddog o'r Gwasanaeth Tân eu penderfyniad dros wrthod y cais gan nad oedd ail lawr yr adeilad yn ddiogel ar gyfer y cyhoedd. Amlygwyd mai dim ond un ddihangfa dân oedd wedi ei gynllunio ac nad oedd hyn yn ddigonol ar gyfer y nifer y bobl a fyddai angen gadael y llawr yn ddiogel mewn argyfwng. Eglurwyd, bod trafodaethau bellach wedi eu cynnal gyda'r ymgeisydd a bod cyfarfod ymhen pythefnos gyda'r Adran Rheolaeth Adeiladu i gadarnhau bod y gwaith yn ymateb i'r gofynion.

Mewn ymateb, amlygodd cynrychiolydd yr ymgeisydd, yn dilyn cyfarwyddiadau gan y Gwasanaeth Tân (Mai 2017) bod grisiau allanol haearn yn cael eu gosod fel dihangfa dân o'r ail lawr - y bwriad yw bod y grisiau yn eu lle erbyn 18fed Awst 2017.

d) Yn derbyn gwahoddiad gan y Cadeirydd i gyflwyno ei sylwadau nododd yr Aelod Lleol ei bryderon ynglŷn â sut roedd y cwmni yn bwriadu cadw rheolaeth dros y maes parcio a'r ardaloedd allanol yng nghyd-destun pobl yn delio gyda chyffuriau o fewn ardaloedd cuddiedig o fewn y safle.

- dd) Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y byddai teledu cylch cyfyng yn flaenoriaeth i'r cwmni fydd yn monitro a rheoli'r ardaloedd allanol a'r brif fynedfa. Awgrymwyd y byddai giataiu i'r brif fynedfa, ond nid oedd modd i gynrychiolydd yr ymgeisydd gadarnhau hynny. Ateggodd bod bwriad cydymffurfio yn llawn gydag amodau'r heddlu.
- e) Yn manteisio ar y cyfle i siarad, nododd Swyddog o Heddlu Gogledd Cymru ei fod wedi ymweld â'r safle, ond nid oedd yr adeilad wedi ei gwblhau ar y pryd. Cadarnhaodd bod cais wedi ei wneud i'r ymgeisydd ddarparu TTC tu mewn a thu allan i'r adeilad / safle. Ateggodd hefyd bod y cwmni yn cefnogi Her 25. Awgrymodd y Swyddog y dylai oriau agored i'r cyhoedd adlewyrchu a bod yn gyson gyda'r oriau trwyddedig ac felly cynigiwyd bod y drwydded yn amlygu oriau cau 1:30am
- f) Wrth grynhoi ei gais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd mai'r bwriad oedd ymateb yn llawn i'r argymhellion cynllunio a bod diogelwch y cyhoedd yn hynod o bwysig i'r fenter. Cadarnhaodd y byddai yn cysylltu gyda'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu be fyddai angen arweiniad pellach.
- ff) Wrth ystyried y cais ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roi sylw penodol i Polisi Trwyddedu'r Cyngor, arweiniad y Swyddfa Gartref ac egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003
- Trosedd ac Anrhefn
 - Diogelwch y Cyhoedd
 - Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
 - Amddiffyn Plant rhag Niwed

PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn ddarostyngedig i amodau ychwanegol:

Rhodddwyd y drwydded fel a ganlyn:

1. Caniateir cerddoriaeth fyw dan do o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 06:00 a 00:00, ac ar ddydd Sul rhwng 06:00 a 22:30.
2. Caniateir lluniaeth hwyr yn nos dan do o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 23:00 ac 01:00.
3. Caniateir darparu alcohol i'w yfed ar yr eiddo o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 10:00 ac 01:00.
4. Oriau agor i'r cyhoedd o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 06:00 a 01:30.
5. Bod materion sydd wedi eu cynnwys yn rhan M o'r cais (h.y. yr atodlen weithredu) yn cael eu hymgorffori fel amodau i'r drwydded.
6. Bod yr amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu o ran teledu cylch cyfyng yn cael eu hychwanegu i'r drwydded.

Wrth ystyried pryderon y Gwasanaeth Tân y byddai rhoi'r drwydded yn peryglu diogelwch cyhoeddus, ar y sail nad oedd digon o allanfeydd tân ar ail lawr yr eiddo, roedd yr Is-bwyllgor, wedi derbyn sylwadau gan gynrychiolydd yr ymgeisydd, oedd yn nodi bod bwriad adeiladu ail allanfa dân o'r ail lawr, yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Wrth ystyried sylwadau gan yr aelod lleol yn mynegi pryder am bobl yn delio cyffuriau yn nalgylch yr eiddo, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr amodau TCC arfaethedig yn ddigonol i fonitro unrhyw ddiogwyddiadau o'r fath.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 12:25pm